# Tymor yr Hydref (i) 2018 — Blynyddoedd 1 a 2

YSGOL GYMRAEG BRYN Y MÔR

CADW IAITH CADW GWLAD



## Thema'r hanner tymor yw: Archfarchnad!

## Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

**Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu**

- Creu cornel chwarae 'Siop y Gornel' a mwynhau prynu a gwerthu.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon, barddoniaeth a llyfrau ffeithiol.
- Mwynhau ysgrifennu mewn ystod o ddulliau gwahanol, a dysgu sut i ysgrifennu **labeli ffeithiol, rhestrau, penawdau a chyfarwyddiadau.**
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Datblygiad Creadigol**

Mwynhau canu caneuon yn ymwneud â'r thema.

Dysgu sut i ddylunio a chreu pecynnau a labeli gan ddefnyddio gwahanol dechnegau.

Astudio ac efelychu gwaith yr arlunydd Andy Warhol.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener. Rhaid i ni ei ddychwelyd ar ddydd Llun. Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol. (Blwyddyn 2 yn unig)

**Datblygiad Mathemategol**

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau hyd at 100 o leiaf.
- Ymarfer a gwella ein sgiliau adio a thynnu i ffwrdd.
- Defnyddio arian, parhau i ddatblygu sgiliau mesur hyd a datrys problemau.
- Chwarae llawer o gêmau mathemateg pen.
- Dysgu adnabod siapau 2D a 3D.

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!**
**@YGGBYMCWilliams**
**@YGGBYMROwen**
**@YGGBYMRJones**

**Addysg Grefyddol:**

Astudio'r Gymuned (Yr Eglwys Gristnogol) a'r Cartref fel mannau arbennig.

Ymweld ag eglwys leol.

**Sgiliau Cymhwysedd Digidol:**

Creu cyflwyniadau gan ddefnyddio amryw o dechnegau.

Dysgu rhoi enw i ddarn o waith a'i arbed.

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

- Sut mae gwahanol ddeunyddiau yn adweithio wrth gael eu cynhesu, oeri, cymysgu, troi, gwasgu a'u newid gan ddefnyddio ystod o brosesau;
- Pa gynnyrch gaiff ei werthu mewn archfarchnadoedd a sut y maen nhw'n cael eu pecynnu;
- Adnabod y gwahaniaethau rhwng siopau heddiw a'r gorffennol.

**Datblygiad Corfforol**

- Datblygu ac ymarfer ein sgiliau gymnasteg
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol**

Dysgu sut i fod yn ymwybodol o ddiogelwch a hylendid wrth baratoi bwyd;

Trafod ein cyfrifoldeb i ofalu am yr amgylchfyd wrth ailgylchu sbwriel.

**Byddwn yn ymweld â Siop Gwalia yn Amgueddfa Sain Ffagan ar y 12/10/18 a gobeithiwn ymweld ag archfarchnad leol.**